

ASESIAD RISG



Lleoliad/Safle/Ysgol Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth	Dyddiad: 14 Awst 2020
Cwblhawyd gan: Kyle Phillips/ Emma Reed	Dyddiad adolygu: Wrth i ganllawiau wedi'u diwygio gael eu rhyddhau neu os na cheir canllawiau wedi'u diwygio, hanner tymor mis Hydref
Gweithgaredd / Maes / Disgrifiad: Darparu Gwasanaethau Trafnidiaeth Ysgol/Coleg o ddechrau Tymor Mis Medi 2020 (oherwydd pandemig COVID19)	

Beth yw'r peryglon?	Pwy fyddai mewn peryg o niwed a pham?	Beth rydych eisoes yn ei wneud?	Pa gamau pellach sydd angen eu cymryd?	Camau gweithredu gan bwy	Camau gweithredu erbyn pryd	Dyddiad cwblhau'r camau gweithredu
Cludo Dysgwyr o'u cartrefi i'r ysgol/coleg yn ystod Pandemig COVID19.	<p>Pwy: Gyrwyr, Cynorthwywyr teithwyr, Teithwyr/Dysgwyr</p> <p>Sut: Y posibilrwydd o ledaenu'r haint trwy gyswllt wyneb yn wyneb/arwynebau wedi'u halogi, ac ati</p>	<ul style="list-style-type: none"> Bydd gweithredwyr a staff Trafnidiaeth Teithwyr yn monitro arweiniad gan LIC ac yn adolygu'r asesiad risg hwn yn rheolaidd. Dywedir wrth gontractwyr/gweithredwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau cenedlaethol a gofynion cyfreithiol cyfredol. Dywedir wrth gontractwyr i sicrhau bod eu hasesiad risg yn nodi Gyrwyr a Chynorthwy-wyr Teithwyr addas (ystyrir yn arbennig yr angen i ddiogelu staff hŷn neu sy'n agored i niwed o bosibl). Bydd y gyrrwr yn sicrhau bod y cerbyd yn cael ei awyru trwy'r amser trwy agor ffenestri/awyrwyr/goleuadau to (lle y bydd yn briodol). Ni ddylid defnyddio systemau awyru awyr/rheoli'r hinsawdd ar unrhyw gerbydau gwasanaeth cyhoeddus (dim ailgylchu'r awyr). Lle y bydd yn bosibl, dylai'r seddi yn syth y tu ôl i sedd y gyrrwr aros yn wag a'u rhwystro neu eu 	Monitro holl ganllawiau LIC.		Cyn ailddechr au'r gwasanaeth (Medi 2020)	

		<p>llenwi olaf os bydd y cerbyd yn llawn.</p> <ul style="list-style-type: none">• Bydd yr ysgol yn rhoi cyfarwyddiadau safle i gontractwyr, a fydd yn dweud wrth y gyrwyr i gydymffurfio'n llawn.• Bydd gyrwyr yn sicrhau eu bod yn parcio mewn modd ystyrlon er mwyn lleihau cyswllt rhwng meddianwyr.• Wrth gasglu a gollwng Dysgwyr, bydd pob aelod o staff yn cadw pellter o 2m o leiaf rhyngddyn nhw a Rhieni, Staff eraill a Dysgwyr eraill ar bob adeg oni bai nad oes modd gwneud felly oherwydd anghenion disgybl (yn yr achos hwn, caiff Cyfarpar Diogelu Personol priodol ei wisgo).• Tra y byddant ar y safle, ac yn enwedig mewn ysgolion/ colegau, ni fydd gyrwyr yn dod ynghyd ag aelodau eraill o staff (naill ai staff yr ysgol neu Yrwy/Cynorthwyrwyr Teithwyr eraill).• Ceir gyrwyr adael y cerbyd (oni bai bod cyfarwyddiadau'r ysgol yn nodi fel arall) cyn i'r Dysgwyr fynd arno gan gadw pellter o 2m y tu allan i'r cerbyd, ar yr amod y gwneir y cerbyd yn ddiogel yn gyntaf gan y gyrrwr.• Rhaid i weithredwyr sydd am ddefnyddio drysau cefn yn hytrach na drysau blaen cerbydau llai (e.e. bysus mini/cerbydau ag wyth sedd) gyflwyno asesiad risg penodol i bwysu a mesur y risg o lithro/baglu, y defnydd o risiau heb eu hangori, casglu ar briffordd gan wynebu traffig sy'n nesau, ac ati a bod wedi trafod hyn gyda Swyddog Trafnidiaeth.• Caiff yr amgylchedd y mae angen i bob cynorthwydd personol weithio ynddo ei asesu'n unigol a chaiff mesurau rheoli priodol eu rhoi ar waith ar gyfer y lleoliad hwnnw. Bydd hyn yn cynnwys bwclo/dadfwclo gwregysau diogelwch a helpu Dysgwyr i fynd i'r cerbydau ac allan ohonynt (oni bai bod cyfarwyddiadau safle'r ysgol yn nodi fel arall), yn benodol y rheiny sydd ag ADY, felly rhaid iddo wisgo Cyfarpar Diogelu Personol.				
--	--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--	--

		<ul style="list-style-type: none">• Pan na fydd unrhyw Ddysgwyr yn y cerbyd, bydd y Cynorthwy-ydd Personol yn eistedd 2m i ffwrdd o'r gyrrwr a gwneud felly hefyd tra bydd Dysgwr/Dysgwyr yn y cerbyd pan fydd yn ymarferol.• Bydd gweithredwr y cerbyd yn ystyried gosod sgriniau mewn coetsis sy'n ddewisol (bydd y gweithredwr yn sicrhau na fydd gosodiadau o'r fath yn groes i reoliadau cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, safonau addasrwydd a safonau MOT a bod ei yswiriwr yn eu derbyn yn ysgrifenedig)• Bydd gweithredwr cerbydau'n ystyried gosod sgriniau mewn cerbydau hacni os nad ydynt wedi'u gosod gan wneuthurwr y cerbyd, ac mewn cerbydau llogi preifat sy'n ddewisol ar yr amod bod y contractwr yn sicrhau'r canlynol o leiaf (a) nad yw gosodiad o'r fath yn groes i MOT, (b) bod gosodiad o'r fath yn cael ei gymeradwyo ac y cytunir arno gan awdurdod trwydded priodol, a (c) bod gosodiad o'r fath yn cael derbyn yn ysgrifenedig gan ei yswiriwr• Mae rhieni wedi cael cyfarwyddiadau ynghylch y ffordd y bydd eu plant yn defnyddio trafndiaeth ysgol sy'n nodi, trwy ddefnyddio trafndiaeth ysgol, eu bod nhw a'u plant yn cytuno i'r amodau wedi'u diwygio ac y bydd methu â chydymffurfio â chanllawiau/protocolau yn arwain yn syth at y cynnig trafndiaeth yn cael ei dynnu'n ôl. Bydd contractwr yn rhoi gwybod am broblemau ymddygiadol/toriadau i'r adran Trafndiaeth teithwyr yn brydlon. Cyflwynir gwaharddiadau ar unwaith os na fydd disgyblion yn cadw at yr hyn a ddisgwylir ganddynt.• Er mwyn nodi mor gyflym a hawdd â phosibl unrhyw broblemau neu doriadau posibl ar gerbydau, bydd ar bob cerbyd sydd â 16 neu fwy o seddi i deithwyr system TCC sy'n cydymffurfio ac sy'n gweithio.• Bydd ysgolion a cholegau'n gyfrifol am sicrhau bod un disgybl ar y tro yn mynd i mewn i gerbydau,				
--	--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--	--

		<p>gyda'r Dysgwyr hynny nad ydynt wedi'u galw i'w cerbyd yn aros mewn ardal a reolir i ffwrdd o'r ardal lwytho.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caiff ysgolion a cherbydau eu hannog i weithredu amseroedd dechrau a gorffen ar adegau gwahanol lle y bydd yn ymarferol er mwyn lleihau nifer y disgyblion sy'n mynd i mewn i gerbydau ac anawsterau cysylltiedig. Fodd bynnag, bydd trafndiaeth dim ond unwaith yn y bore i fynd â Dysgwyr i'r ysgol ac unwaith yn y prynhawn i fynd â Dysgwyr adref. • Ni chaiff bwyd ei fwyta na diodydd eu hyfed ar drafndiaeth ysgol/coleg. • Gall methu â dilyn canllawiau COVID arwain yn syth at derfynu contract y gwasanaeth dan sylw. 				
Hylendid a Glendid Cerbydau Trafndiaeth	<p>Pwy: Gyrwyr, Cynorthwywyr teithwyr, Teithwyr/Dysgwyr</p> <p>Sut: Y posibilrwydd o ledaenu'r haint trwy arwynebau wedi'u halogi, ac ati</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd contractwyr yn glanhau cerbydau'n helaeth unwaith y dydd • Bydd contractwyr yn glanhau mannau cyffwrdd mewnol ac allanol ac ati rhwng pob taith i safon benodol (chwistrell/weipiau feirwsleiddiol) • Bydd y contractwr yn sicrhau bod gan yrwyr ddigon o chwistrell/weipiau feirwsleiddiol o gryfder digonol i'w defnyddio cyn, yn ystod ac ar ôl pob taith. Pob handlen a man cyffwrdd posibl arall e.e. pyst i gael ei lanhau cyn ac ar ôl pob taith. Cynorthwywyr i roi hylif diheintio ar eu dwylo'n aml gan gynnwys yn ystod y daith. • Bydd staff yn gwisgo menig yn ôl disgrisiwn y contractwr. Dylai'r contractwyr a gyrwyr fod yn ymwybodol o'r ffordd gywir o dynnu a gwaredu menig. 			Cyn ailddechrau'r gwasanaeth (Awst 2020)	
Defnyddio Cyfleusterau Lles i Yrwyr/Cynorthwywyr Teithwyr	<p>Pwy: Gyrwyr, Cynorthwywyr teithwyr, teithwyr/Dysgwyr, unrhyw gysylltiadau agos eraill</p> <p>Sut: Y posibilrwydd o</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid galluogi gyrwyr a chynorthwyr teithwyr ddefnyddio cyfleusterau lles addas yn yr ysgol (yn dibynnu ar gyfarwyddiadau safle'r ysgol) /safleoedd eraill yr ymwelir â nhw, er mwyn iddynt olchi eu dwylo'n drylwyr trwy ddefnyddio dŵr poeth a sebon. • Caiff gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr hylifau 			Cyn ailddechrau'r gwasanaeth (Medi 2020)	

	ledaenu'r haint drwy ddiffyg golchi dwylo a chyfleusterau lles.	diheintio dwylo/weipiau glanwaith gan eu cyflogwr.				
Gyrwyr/Teithwyr â Symptomau COVID19 posibl (Tymheredd uchel, peswch newydd a pharhaus, colli blas a/neu arogl).	<p>Pwy: Gyrwyr, Cynorthwyrwyr teithwyr, teithwyr/Dysgwyr, unrhyw gysylltiadau agos eraill</p> <p>Sut: Y posibilrwydd o ledaenu'r haint trwy ddiffyg cadw pellter cymdeithasol, eistedd yn agos iawn at rywun arall, cyswllt corfforol, cyswllt wyneb yn wyneb ac arwynebau wedi'u halogi.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ni fydd unrhyw Ddysgwyr sy'n dangos symptomau COVID19 yn cael teithio ar drafnidiaeth ysgol. Mae angen i rieni sicrhau nad yw Dysgwyr yn teithio os ydynt yn dangos symptomau COVID19 neu unrhyw salwch tymhorol arall. Mae hyn hefyd yn berthnasol os yw unrhyw aelod o'u cartref yn dangos symptomau COVID19 - gan ddilyn argymhellion Llywodraeth Cymru ar y camau i'w dilyn. Ar gyfer y contractau hynny sy'n casglu wrth gyfeiriadau cartref, mae gan staff y dewis i ofyn i Rien/Gofalwyr/Dysgwyr bob dydd a oes gan y Dysgwr neu unrhyw un yn y cartref symptomau COVID19. Os felly, ni ddylai'r Dysgwr deithio. Wrth gartref dysgwr, mae gan y gyrrwr/cynorthwy-ydd personol yr hawl i beidio â chaniatau'r Dysgwr i deithio. Bydd y gyrrwr/cynorthwy-ydd personol yn rhoi gwybod am unrhyw deithio a wrthodwyd oherwydd symptomau COVID19 i Staff yr Ysgol a'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr. Os bydd dysgwr yn dechrau dangos symptomau yn ystod y daith, ar gerbydau llai, eir â'r dysgwr adref ac ni chaiff unrhyw fwy o ddysgwyr eu casglu. Ceir mynd â'r dysgwr i'r ysgol dim ond os nad os unrhyw un gartref i'w groesawu. Bydd staff yn rhoi gwybod am y sefyllfa i'r ysgol a chontractwr y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr. Staff i olchi dwylo, newid a golchi dillad wrth gyrraedd gartref. Wedyn bydd angen i'r staff hunanynysu nes y gwybyddir canlyniad prawf COVID y dysgwr (y tîm Trafnidiaeth Teithwyr i roi gwybod am y camau nesaf). Bydd staff yn ystyried eu ffitrwydd eu hunain cyn pob taith. Os ydynt yn dangos symptomau, ni fyddant yn gweithio a byddant yn cysylltu â'u cyflogwr/contractwr. Rhaid i'r Contractwr rhoi gyrrwr/hebryngwr newydd yn eu lle a defnyddio cerbyd arall sydd wedi'i lanhau. 				Cyn ailddechrau'r gwasanaeth (Medi 2020)

<p>Cydymffurfiaeth lawn gan Deithwyr sy'n Ddysgwyr (100% o'r seddai'n cael eu defnyddio)</p> <p>(Bydd yr holl deithwyr yn blant oedran ysgol a't Gyrrwr a Chynorthwywyr Teithwyr posibl)</p>	<p>Pwy: Gyrwyr, Cynorthwywyr teithwyr, teithwyr/dysgwyr, unrhyw gysylltiadau agos eraill</p> <p>Sut: Y posibilrwydd o ledaenu'r haint trwy ddiffyg cadw pellter cymdeithasol, eistedd yn agos iawn at rywun arall, cyswllt corfforol, cyswllt wyneb yn wyneb ac arwynebau wedi'u halogi.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae pob Dysgwr/Gyrrwr/Cynorthwy-ydd sy'n defnyddio cerbydau trafnidiaeth yn deithwyr awdurdodedig gyda manylion cyswllt wedi'u cofnodi er mwyn galluogi 'Profi, Olrhain, Diogelu' os bydd achosion COVID19. Nid yw defnyddio gorchudd wyneb yn ofyniad gan LIC ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw Ddysgwyr sy'n cael eu cludo rhwng yr ysgol a'r cartref ar drafnidiaeth ysgol ddynodedig. (Mae LIC yn argymhell bod pob teithiwr (11+ oed) yn defnyddio gorchuddion wyneb tair haen ar drafnidiaeth gyhoeddus). Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ei gwneud yn orfodol i Ddysgwyr oedran ysgol uwchradd a Gyrrwr a Chynorthwywyr Teithwyr wisgo masgiau wyneb wrth deithio (os oes unrhyw resymau iechyd dros beidio â gallu gwneud hyn, mae angen iddynt roi gwybod i'r tîm trafnidiaeth Teithwyr). Gwrthodir teithio i unrhyw Ddysgwr sy'n ceisio mynd i mewn i gerbyd trafnidiaeth ysgol dan gontract heb fasg wyneb. Bydd rhieni/gofalwyr yn rhoi masgiau wyneb i ddisgyblion a bydd cyflogwyr yn eu rhoi i yrwyr/hebryngwyr. Mae'r Cyngor yn argymhell defnyddio gorchuddion wyneb ar gyfer dysgwyr ysgolion cynradd a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n methu cadw pellter cymdeithasol (2 fetr). Efallai y bydd amgylchiadau lle y byddai anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc yn ei gwneud yn amhriodol i wisgo masg wyneb ac o dan yr amgylchiadau hyn dylid cynnal asesiad risg i liniaru unrhyw risg ychwanegol. 	Adolygu'n gyson y sefyllfa o ran achosion o'r haint		Cyn ailddechrau'r gwasanaeth (Medi 2020)

		<ul style="list-style-type: none">• Ni ellir gwarantu effeithlonrwydd gorchuddion wyneb, e.e. gorchuddion cartref/amhriodol gyda llai na 3 haen.• Er mwyn osgoi croeshalogi, bydd bag gwastraff plastig ar gael ar gyfer gorchuddion wyneb wedi'u defnyddio a gaiff ei waredu fel gwastraff arferol ar ôl pob taith.• Gall Gyrwyr ddefnyddio gorchuddion wyneb os dymunant.• Caiff Dysgwyr eu hannog i olchi eu dwylo yn syth cyn teithio ac eto ar ôl yr ysgol cyn mynd i mewn i gerbyd.• Argymhellir bod rhieni/gofalwyr yn rhoi diheintydd dwylo i Ddysgwyr.• Caiff Dysgwyr eu hannog i ddilyn arferion hylendid da ar gyfer pesychiadau a thisiadau (Ei ddal, Ei daflu, Ei Ddifa).• Caiff Dysgwyr eu hannog i eistedd mewn grwpiau blwyddyn pan fydd yn ymarferol.• Ni fydd unrhyw un yn eistedd wyneb yn wyneb.• Caiff gwybodaeth a chyfarwyddiadau ar drefniadau teithio eu rhoi i Ddysgwyr a Rhieni.• Caiff cerbydau eu glanhau'n drylwyr ar ddiwedd pob gwasanaeth wrth iddynt ddychwelyd i ddepo'r gweithredwr neu eu lleoliad amser nos rheolaidd.				
--	--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--	--